CIWB

**Tasg 1**

# Bwyd o ble?

1. Pa fath o fwyd ydy'r bwyd yn y fwydlen?
   - a. Bwyd o China ☐
   - b. Bwyd o India ☐
   - c. Bwyd o Ffrainc ☐
   - ch. Bwyd o'r Eidal ☐

2. Edrychwch eto ar y fwydlen. Ble mae'r fwydlen yma'n mynd?
   - a. Ar y bwrdd mewn tŷ bwyta ☐
   - b. Yn ffenest tŷ bwyta ☐
   - c. Ar y teledu ☐
   - ch. Mewn llyfr ☐

   Rhowch reswm dros eich ateb.

3. Faint o'r gloch mae'r tŷ bwyta'n cau ar nos Fercher?
   - a. Am saith o'r gloch ☐
   - b. Am un ar ddeg o'r gloch ☐
   - c. Am hanner awr wedi un ar ddeg ☐
   - ch. Am ganol nos ☐

4. Ydy'r tŷ bwyta ar agor am ddau o'r gloch ar brynhawn Sul?

5. Ydy'r tŷ bwyta ar gau am ddeg o'r gloch ar fore Sadwrn?

6. Beth ydych chi'n feddwl o'r bwyd ar y fwydlen? Siaradwch am hyn mewn grŵp. Cofiwch roi rhesymau.

| Geirfa | |
|---|---|
| bwydlen | menu |

Ewch i'r dudalen nesaf.

Ydych chi'n cofio sut i siarad am fwyd? Dyma ychydig o help i chi:

| | |
|---|---|
| Mae ... yn flasus.<br>felys<br>fendigedig<br>ddi-flas<br>ych a fi<br>Mae ... yn well na ...<br>Dw i'n meddwl bod ... yn ... achos ...<br><br>Dw i'n cytuno achos ...<br>Dw i ddim yn cytuno achos ...<br>Wyt ti'n cytuno?<br>Ydw, achos ...<br>Nac ydw, achos ... | ... is / are delicious<br>sweet<br>gorgeous<br>tasteless<br>awful<br>... is / are better than ...<br>I think that ... is / are ... because ...<br><br>I agree because ...<br>I don't agree because ...<br>Do you agree?<br>Yes, because ...<br>No, because ... |

7. Ar ddarn o bapur, ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau yma:
Faint o bobl yn y grŵp sy'n hoffi'r bwyd ar y fwydlen – pam?
Faint o bobl yn y grŵp sy ddim yn hoffi'r bwyd ar y fwydlen – pam?

Cymharwch eich atebion chi ag atebion grwpiau eraill.

8. Rydych chi'n agor tŷ bwyta. Gwnewch fwydlen.
Ysgrifennwch y pris hefyd.

Ewch i'r dudalen nesaf.

| | |
|---|---|
| | ⓒ enw'r tŷ bwyta |
| | ⓒ cyfeiriad |
| **Ar agor:** | ⓒ ar agor |
| Dewis da o fwyd: | ⓒ pa fath o fwyd |
| | ⓒ bargen arbennig |
| | ⓒ perswadio |

9. Dangoswch y fwydlen i bartner.
   Beth mae'ch partner chi'n feddwl o'r bwyd ar y fwydlen?
   Rhaid rhoi rhesymau.

10. Defnyddiwch y fwydlen i chwarae rôl.
    Partner A: Rydych chi'n archebu'r bwyd. Cofiwch ofyn faint ydy'r bwyd.
    Partner B: Chi ydy'r gweinydd.

**Faint ydy'r stiw cig eidion?**

**Pum punt wyth deg (ceiniog).**

**Faint ydy'r crêpes fanila?**

**Dwy bunt pum deg (ceiniog).**

| Geirfa | |
|---|---|
| archebu | to order |
| gweinydd | waiter / waitress |